# Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**2011 mccc 1**

## RHAN 5

GORFODI SAFONAU

## PENNOD 7

YCHWANEGU PARTI MEWN ACHOS

### 106 Hawl i wneud cais i berson gael ei ychwanegu'n barti mewn achos

(1) Mae'r adran hon yn gymwys—

(a) os gwneir apêl i'r Tribiwnlys o dan adran 95(2) neu adran 99, a

(b) os gwneir yr apêl honno mewn perthynas â dyfarniad a wnaed ar ôl ymchwiliad sy'n dilyn cwyn a wneir o dan adran 93.

(2) Yn achos apêl o dan adran 95(2)—

(a) rhaid i'r Tribiwnlys hysbysu'r person a wnaeth y gŵyn (P) fod yr apêl wedi ei gwneud, a

(b) caiff P wneud cais i'r Tribiwnlys i gael ei ychwanegu'n barti yn yr achos.

(3) Mewn achos o'r fath, os ychwanegir P yn barti yn yr achos—

(a) rhaid i'r Tribiwnlys hysbysu P o'i benderfyniad ar yr apêl, a

(b) caiff P, gyda chaniatâd y Tribiwnlys neu'r Uchel Lys, apelio i'r Uchel Lys o dan adran 97 ar bwynt cyfreithiol sy'n deillio o'r penderfyniad hwnnw.

(4) Yn achos apêl a wneir o dan adran 99—

(a) rhaid i'r Tribiwnlys hysbysu D fod yr apêl wedi ei gwneud, a

(b) caiff D wneud cais i'r Tribiwnlys i gael ei ychwanegu'n barti yn yr achos.

(5) Os ychwanegir D yn barti yn yr achos—

(a) rhaid i'r Tribiwnlys hysbysu D o'i benderfyniad ar yr apêl, a

(b) caiff D, gyda chaniatâd y Tribiwnlys neu'r Uchel Lys, apelio i'r Uchel Lys o dan adran 101 ar bwynt cyfreithiol sy'n deillio o'r penderfyniad hwnnw.

(6) Mae'r adran hon yn ddarostyngedig i Reolau'r Tribiwnlys (sy'n cael gwneud, ymysg pethau eraill, ddarpariaeth ynghylch y modd y caniateir gwneud cais o dan yr adran hon i berson gael ei ychwanegu'n barti mewn achos a'r amser a ganiateir ar gyfer gwneud cais o'r fath).

(7) Nid yw'r adran hon yn atal Rheolau'r Tribiwnlys rhag gwneud darpariaeth ynghylch personau eraill y caniateir eu hychwanegu'n barti mewn achos.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 106 ddim mewn grym ar Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 156(2)**

**I2** A. 106 mewn grym ar 7.7.2015 gan O.S. 2015/1413, **ergl. 3(c)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Adran 106.